adnabod awdur
ANGHARAD TOMOS

adnabod awdur Angharad Tomos

WN I DDIM YN IAWN lle mae Gwlad y Rwla, ond y cip cyntaf gefais i arni oedd mewn berfa mewn coedwig. Pan edrychais yn y ferfa, roedd gwrach fach o'r enw Rwdlan ynddi. Gwrach ddireidus oedd hi, ac yn debyg i'm chwaer fach i. Wedi i mi ei dilyn, gwelais yr ogof yr oedd yn byw ynddi, a'r wrach oedd yn gofalu am Tan Domen, Rala Rwdins a Mursen y gath.

Digwyddodd hynny ym 1983, ac ers hynny mi gaf fynd a dod i Wlad y Rwla fel y mynnaf. I'm helpu i fynd yno, mae gen i ambarél las a lluniau cymylau arni. Wrth eistedd dan hon, gallaf ddychmygu sut mae Rala Rwdins yn teimlo wrth deithio drwy'r awyr. Meddyliais y carai plant rannu'r byd hwn efo mi, a bellach mae dros ddwsin o lyfrau yng nghyfres Rwdlan.

Gall unrhyw un greu byd dychmygol fel hyn – yr unig bethau ydach chi eisiau ydi pensel a phapur. Y peth anoddaf yw meddwl am gymeriad a chael enw iddo fo neu hi. Unwaith yr ydych wedi gwneud hyn, mae'r allwedd i antur yn eich llaw. Gall fod yn stori ddigri, stori drist, stori arswyd – chi gaiff benderfynu. Yn aml, gallaf weld y cyfan yn digwydd fel ffilm yn fy mhen, a cheisiaf gofnodi'r cyfan ar bapur.

Y peth da efo meddwl am storïau yw y gallwch ei wneud yn unrhyw le – wrth aros am fws, wrth fynd am dro, wrth fwyta'ch cinio, wrth chwarae, a chyn cysgu. Edrychwch o'ch cwmpas ac mae byd cyfan o syniadau ar eich cyfer. I ble mae'r bws hwnnw'n mynd? Pwy sydd arno? Pam fod y plentyn yn crio – ydi o wedi colli rhywbeth? Beth yw eich ofn mwyaf? Beth yw'r teimlad gorau yn y byd? – Rhowch y cyfan ar bapur. Yn fy mhen y byddaf yn creu storïau, ond fy hoff le i sgwennu ynddo ydi mewn cwt sydd gen i yn yr ardd. Mae o'n lle tawel iawn, ac weithiau wrth godi 'mhen, caf gip ar fronfraith neu robin goch yn syllu arna i.

Pan oedd fy mhedair chwaer a minnau'n dod adre o'r ysgol (ers talwm iawn, iawn!), roedd pob un ohonom am y gorau i gael dweud hanes y diwrnod wrth Mam. Yr un oedd yn dweud y stori orau oedd yn cael y gwrandawiad gorau. Dyna sut y dechreuais i ddweud stori . . .

Dyddiad geni: 19 Gorffennaf 1958

Magwyd: Llanwnda, ger Caernarfon

Cartref presennol: Penygroes, Dyffryn Nantlle

Gwaith: Sgwennu ac ymgyrchu

Hoff bethau: Teithio a threulio amser yn yr ardd

Cas bethau: Bwlis a marsipan

Lluniau/Martin Roberts

CYNGOR LLYFRAU CYMRU 2001

Llyfrau i blant gan Angharad Tomos

Cyfres Rwdlan
Rala Rwdins *£1.95*
Ceridwen *£1.95*
Diffodd yr Haul *£1.95*
Y Dewin Dwl *£1.95*
Llipryn Llwyd * *£1.95*
Mali Meipen * *£2.95*
Diwrnod Golchi * *£1.95*
Strempan * *£2.95*
Jam Poeth * *£1.95*
Yn Ddistaw Bach * *£1.95*
Corwynt * £1.95
Penbwl Hapus * *£2.95*
Cosyn # *£2.95*
Lolfa

*ar gael fel casét *£4.49*
ar gael fel llyfr mawr *£14.95*

Sothach a Sglyfath *£4.95*
Lolfa
Guto Col Tar *
Guto Col Tar yn y Garej *
Sain £1.95, £4.49 llyfr a chasét

Addasiadau
Y Bugail Blin *Cyhoeddiadau'r Gair £4.50*

Llyfrau Fi Hefyd
Dydw i Ddim Eisiau Un Bach Ydwyf Ffwrdd â thi, Frawd Bach
Hei, Rwy'n Gweld
Ar y Brig
Da, Gwell, Gorau
Dim Angen Cwch
Hau'r Had
Helpu Duw yn Hapus
I Mewn i'r Arch â Nhw!
Nadolig Heb Goeden
Paid Siglo'r Cwch
Paid â Stopio Llenwi'r Potiau
Rhywun i'w Garu
Y Wal na Ddaeth i Lawr
Yn Ffau'r Llewod
Cyhoeddiadau'r Gair £1.25 yr un

Llyfr Llanast – llyfr lliwio *£1.95*
Llyfr Smonach – llyfr lliwio a phosau *£1.45*
Stwnsh
Rwdlan – llyfr coginio *£1.95*
Parti Cwmwl – llyfr coginio *£1.95*